COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill 11eg, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, Andrew T. Weir, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 14eg, 2018 yn gywir ar ôl cywiro mai nid 'cyfraniad' gafodd Cyngor Gwynedd ond taliad am wagio'r biniau baw cŵn yng nghofnod 12ff) Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau – heb newid y disgrifiad wrth dorri a gludo.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/1092/39/LL	**Cynllun Diwygiedig –** Dymchwel lolfa haul presennol a chodi
C17/1121/39/CR	estyniad newydd – Fferm Marchros, Bwlchtocyn **– Cefnogir (fel a wnaethpwyd â'r cynllun gwreiddiol ar ôl ei drafod â'r Is-bwyllgor Cynllunio; anfonwyd sylwadau erbyn Mawrth 28ain)**
C18/0189/39/LL	Ffenestr gromen newydd â tho brig llechi a gosod to brig llechi ar y ffenestr gromen bresennol – Lleferin Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0214/39/LL	Adeiladu modurdy tri bae â llety uwchben – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch **– Cefnogir, ond mynegwyd pryder y gallesid troi'r modurdy'n dŷ a cheisio'i werthu maes o law; awgrymwyd y dylid gosod amod na ellid gwneud hynny, h.y. dylid gwerthu'r tŷ a'r modurdy**
C18/0227/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr cefn yn cynnwys teras to – Gwelfor, Allt Graigwen, Mynytho **– Cefnogir**
C18/0228/39/LL	Adeiladu estyniad a ffenestri gromen – Penrhos, Mynytho **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

- Hysbysodd Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, y bu Adran yr Economi yn llwyddiannus yn denu ychydig o arian ar gyfer gwaith ymchwil cychwynnol sy'n hanfodol ar gyfer sefydlu system a fyddai'n addas ar gyfer prosiect. Rhaid i'r allbwn fod yn rhywbeth arloesol a fwy technegol i gwrdd â'r criteria penodol. Cynigiodd doiledau Aber-soch fel opsiwn i'r grŵp, gan fod y Cyngor hwn yn awyddus i gydweithio a, chan ei fod yn le poblogaidd iawn, byddai'n addas ar gyfer treialu'r dechnoleg newydd. Gofynna os meddyliwyd am ffordd arall o ddenu arian ar gyfer y toiledau megis bocs cyfrannu a nodi y defnyddir yr arian at gostau gweithredu'r toiledau; naddo, gan mai rhan o ystyriaeth y Cyngor o gymryd mwy o gyfrifoldeb amdanynt oedd pe bai Cyngor Gwynedd yn gosod peiriannau talu ynddynt a chedwir at y penderfyniad hwnnw.
- Derbyniwyd gohebiaeth yr anfonwyd yr ymholiad am agor caffi Marchros dros y Nadolig mis diwethaf ymlaen at Dîm Gwarchod y Cyhoedd.
- Er yr anfonwyd llythyr i fynegi siomedigaeth na fwriedid agor y toiledau tymhorol tan Ebrill 1af a gofyn i'r Adran ailystyried, gan fod y Cyngor yn cyfrannu at eu cynnal, deallid y cyrhaeddodd yn rhy hwyr i hynny ddigwydd.
- Ymatebwyd i'r Strategaeth Toiledau Lleol.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-bwyllgor cyn y Cyngor heno a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr y cwmnïau ddod i weld y ddau gae chwarae a chynnig barn, ynghyd â gofyn am brisiau ar gyfer rhwyd ddringo i gae Aber-soch a thrac beicio (ar ôl trafodaeth â Phennaeth Mewn Gofal Ysgol Foel Gron). Yn digwydd bod, derbyniwyd e-bost oddi wrth gynrychiolydd Wicksteed yn cynnig y gallai ymweld ag unrhyw safle i'w asesu a thrafod.

c) **Meddygfa Aber-soch**

Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyl Ardal Gofal Cychwynnol, yn dilyn ei wahodd i fynychu cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod yr uchod.

ch) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Mae Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Hunan*iaith,* yn hapus iawn paratoi pecynau i'w dosbarthu i siopau/busnesion y pentref. Awgryma y gellid ei wneud yn brosiect ar y cyd fel y rhennid yr wybodaeth gan Hunan*iaith* â'r neges ynglŷn â phwysigrwydd cydnabod a defnyddio'r Gymraeg yn dod yn enw'r Cyngor – penderfynwyd derbyn ei awgrym; cysyllta eto pan fydd y pecynau'n barod.

d) **10. Gohebiaeth**: **a) Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

Derbyniwyd ymateb trigain tudalen ULlC a gyflwynwyd i'r Panel yn Saesneg – anfonir cyfieithiad Cymraeg cyn gynted â phosibl.

dd) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): ii)** ***Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol***

Gwaith darllen a deall yr ohebiaeth a dderbyniwyd. Trefnodd Clerc Cyngor Tref Caernarfon/Ysgrifennydd Cangen SLCC Gwynedd gyfarfod i'w drafod nos Iau, Ebrill 19eg am 6.30 o'r gloch – gobeithia'r Clerc ei fynychu.

e) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): iv)** ***Bwletin mis Ionawr – Templed Newydd Cynllun Iaith Gymraeg***
Ni chafwyd cyfle i'w baratoi, h.y. cynnwys/ychwanegu/addasu'r un cyfredol er mwyn ei fabwysiadu a'i anfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i gael ei sêl bendith.

f) **10. Gohebiaeth: b) Llywodraeth Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**
Anfonir ymateb y Cyngor erbyn Ebrill 23ain – derbyniwyd copi o ymatebion y ddau Aelod Lleol er gwybodaeth.

ff) **10. Gohebiaeth: dd) Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Ailfodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd**

- Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ym Mhenrhyndeudraeth ar Ebrill 7fed i'w drafod.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gymdeithas yr Iaith yn gofyn i'r Cyngor ystyried y cynnig a ganlyn – "Mae'r Cyngor hwn, mewn egwyddor, yn fodlon trafod trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, ar yr amod fod Cyngor Gwynedd yn cadw'r gwasanaeth fel ag y mae am flwyddyn arall i roi amser cael y drafodaeth angenrheidiol"; penderfynwyd cefnogi.

5. **MYNWENT**

Derbyniwyd taliad am ailagor bedd a gosod carreg fedd newydd – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

6. **CYFRIFON**

a) **Cytundeb Trydan y Toiledau**
Derbyniwyd cydnabyddiaeth i'r cytundeb newydd oddi wrth e-on.

b) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Gobeithia'r Clerc fynychu'r cyfarfod a drefnwyd i'w drafod (Clercod yn unig) yn Llandudno ar Fai 9fed er y cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor y noson honno neu gofynna os gall gael copi o unrhyw ddogfennaeth a ddosberthir.

c) **Ceisiadau Ariannol**
Derbyniwyd:

- llythyrau diolch oddi wrth bawb ar wahân i'r Groes Goch
- e-bost oddi wrth aelod o Glwb Hoci Pwllheli i ddiolch am y cyfraniad a dderbyniwyd at osod cae bob tywydd ym Modegroes, ynghyd â hysbysu y bu'r cais am nawdd sylweddol drwy Hoci Cymru yn aflwyddiannus. Ceisir chwilio am ffynhonnell arall a chedwir y cyfraniad at hynny.

d) **Swyddfa Archwilio Cymru – Arolwg o Holl Gynghorau Cymuned a Thref Cymru**
Ymatebwyd erbyn Ebrill 6ed.

dd) **Archwiliad Allanol**
Hysbysodd Clerc Cyngor Tref Caernarfon na dderbyniodd BDO ffurflenni'r archwiliad oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru eto – anfonir hwy cyn gynted ag y'u derbynnir. Canolbwyntia archwiliad eleni ar:

- Archwiliad Mewnol – angen i gynghorau sicrhau y rhônt gytundeb i'r archwilydd mewnol i'w arwyddo yn cynnwys cwmpas yr archwiliad – gwnaed hynny eisoes
- Arian wrth Gefn – sicrhau bod unrhyw arian wrth gefn â phwrpas penodol iddo os yw'n swm llawer uwch nag sydd ei angen wrth gefn am y flwyddyn.

e) **Ad-daliad TAW 2017 – 2018**
Anfonwyd y ffurflen am yr uchod (£2852.70). Derbyniwyd llythyr ym mis Rhagfyr yn hysbysu fod côd cyfeirnod y Cyngor yn newid ond, ni dderbyniwyd dim wedi hynny – anfonwyd llythyr yn holi am fwy o wybodaeth â'r cais.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned**
Ailgysylltwyd â'r Adran, a gofyn un neu ddau gwestiwn ychwanegol, gan na dderbyniwyd ateb fel yr addawyd ym mis Chwefror – derbyniwyd ateb heddiw:
- yr edrycha'r swyddogion i mewn i'r materion Gorfodaeth (ansicr at ba rai y cyfeiriant o'r ymholiadau – holir ymhellach) ac ymatebir mor fuan â sydd phosibl
- pasiwyd mater cilfan Castellmarch (pwy sy'n monitro gwerthu ceir/cychod/tractorau) ymlaen at Priffyrdd ac ymatebir yn uniongyrchol.

Ymholiadau o'r newydd – gofynnwyd a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y siale/cwt enfawr a osodwyd yng ngardd Fronheulog, Lôn Garmon a'r amrywiaeth ym mhrisiau 'fforddiadwy' tai Pen-y-Bont a'r Harbwr; mae natur, maint a lleoliad yr unedau yn gwbl wahanol ac nid oes modd gwneud cymhariaeth tebyg am debyg. Prisiwyd tai fforddiadwy safle'r Harbwr yn annibynnol gan y Prisiwr Dosbarth ac mae Cynefin yn rhan o broses marchnata'r ddau safle.

b) **10. Gohebiaeth: d) Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio**
Mae Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu, yn fodlon mynychu cyfarfod arbennig i drafod y drefn gynllunio – gofynnir i ni gynnig dyddiadau ar nosweithiau Mercher neu Iau – awgrymwyd nos Fercher, Ebrill 27ain neu nos Iau, Ebrill 28ain.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
- Derbyniwyd y cynnig o newid yr amser o hanner nos i ddeg o'r gloch ar gyfer atal carafannau/carafannau modur yn yr uchod – anfonwyd y mater i'r Gwasanaeth Cyfreithiol ac os na fydd gwrthwynebiad fe'i gweithredir cyn gynted â phosibl ond, ni ellir rhoi amser pendant; cadarnhawyd y penderfyniad. Uned Parcio'r Cyngor fydd yn gyfrifol amdano wedyn.
- Ni thynnwyd yr arwyddion system unffordd hyd yma er y dywedwyd ddiwedd mis Ionawr y gwneid hynny o fewn pythefnos.

b) **Blwch Post Llangian**
Ni osodwyd y blwch hyd yma. Deallwyd yr holodd yr Aelod Lleol ei hynt eto.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol parthed yr uchod.

ch) **Materion yn y Gymuned – iii) Clytio Lôn Cae Du/Ailwynebu Lôn Engan**
Newid Trefn Cyffordd Lôn Gwydryn/Lôn Engan

Deallwyd, trwy e-bost yn gofyn am farn y Cyngor ar newid trefn cyffordd Lôn Gwydryn/Lôn Engan ger Capel y Graig, y bwriedir ailwynebu'r olaf ym mis Mehefin. Yn yr un modd, derbyniwyd copi o ohebiaeth, er gwybodaeth, oddi wrth yr Aelod Lleol at Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, yn diolch iddo am ei gyfarfod i edrych ar sefyllfa'r ffyrdd yn Aber-soch ac, o ganlyniad, y blaenoriaethir y ddau safle (Lôn Engan a chyffordd Stâd Cae Du) ar y rhestr ailwynebu.

Newid Trefn Cyffordd Lôn Gwydryn/Lôn Engan

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, yn nodi yr ystyriodd yr Uned newid y trefniant presennol a rhoi blaenoriaeth i'r llif traffig sy'n dod o Lôn Gwydryn ddilyn y system unffordd yn ddi-rwystr, ynghyd ag argymell rhwystro troi ohoni i fyny Lôn Engan. Noda y buasai'n gyfle gweithredu'r bwriad pan ailwynebir y ffordd ym mis Mehefin. Trafodwyd y mater ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad o flaenoriaethu'r llif traffig o Lôn Gwydryn ond, mynegwyd pryder mawr am y bwriad o'i gwneud yn unffordd trwy Lôn Cae Du, gan ei bod yn anodd tramwyo ar hyd honno fel mae hi yn ystod y tymor gwyliau oherwydd ceir yn parcio ar ei hyd.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau***

Cysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ond, mae ei ar ei wyliau; ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Fields in Trust – Rhaglen Nawdd Active Spaces***

Rhaglen newydd i warchod mannau hamdden a chefnogi ymarfer corfforol yn y gymuned a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Marathon Llundain a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Fields in Trust – cysylltir i holi am fwy o wybodaeth.

ii) ***Cynhadledd ar y Cyd ULlC a SLCC***

Hysbyseb yr uchod a gynhelir yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, ar Fai 16eg – trafodir meysydd pynciol allweddol fel adolygiad o gynghorau lleol y Panel Adolygu Annibynnol; llywodraethiant ac atebolrwydd ariannol; datganoli a rheoliadau diogelu data cyffredinol/seibr ddiogeledd.

iii) ***Bwletin mis Mawrth***

Copi, er gwybodaeth – ni argraffwyd taflenni ohono ond, sonnir am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, Digwyddiadau trafodaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac Arolwg Cynghorau Cymuned a Thref Swyddfa Archwilio Cymru.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Canllaw i Brif Gynghorau ar Arolygon Cymunedol***

Copi, er gwybodaeth.

ii) ***Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl'***

Ymgynghoriad ar leihau niferoedd awdurdodau lleol yng Nghymru – angen sylwadau erbyn Mehefin 12fed.

c) **Cadwch Gymru'n Daclus**
Copi o ddogfen sy'n rhoi trosolwg o'r ffordd y gellir cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion ar y cyd â chynghorau cymuned a thref mewn ffordd gost-effeithiol i ddiogelu a chynnal ansawdd yr amgylchedd lleol.

ch) **ElanCity/Westcotec Traffic Safety Systems – Arwyddion Atal Gyrru**
Gwybodaeth a phrisiau am arwyddion (£1399.00/£1799.00) oddi wrth y cwmni cyntaf a chatalog gan yr ail – dim prisiau.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/1161/39/LL	Diwygio Amod 4 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0901/39/LL er diwygio dyluniad y tŷ arfaethedig – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0044/39/DA	Cais am ddiwygiad ansylweddol i Ganiatâd Rhif C17/0096/39/LL er gosod ffliw yn lle simdde, cynyddu maint sied gardd a chreu man storio poteli nwy calor – 1 Bryn Llawen, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0097/39/LL	Estyniad ac addasiadau – Hornblow Cottage, Llanengan **– Gwrthodwyd**
C18/0108/39/LL	Tynnu Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C10D/0491/39/LL sy'n amodi'r tŷ fod yn gartref parhaol – Graianfryn, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0187/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (llechi), 4 (gorffeniad waliau allanol), 9 (dulliau amgáu) ac 20 (cynllun tirlunio) ar Ganiatâd Cynllunio C14/0172/39/LL – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ebrill a chostau gweinyddol Ionawr – Mawrth (Rh/S 002142 a 002143) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £7836.58 (Rh/S 002139 – Cytundeb Cynnal a Chloi'r Toiledau)
b) Cyngor Gwynedd – £248.82 (Rh/S 002140 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Chwefror)
c) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002141 – Talu Wrth Ennill)

Derbyniadau
a) Toiledau – £70.10 (Tâl Mynediad)
b) G.D. Roberts a'i Fab – £320.00 (Tâl Ailagor Bedd a Gosod Carreg Newydd)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF – BLYNYDDOL A MISOL**

Nos Fercher, Mai 9fed, 2018 am saith o'r gloch